

Rhan 1

Amcanion	Camau gweithredu (Sut byddaf yn cyflawni'r amcan hwn/beth sydd angen ei wneud?)	Adnoddau (Pa gefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcan hwn?)	Dyddiad Targed ar gyfer cyflawni amcan	Meini prawf llwyddiant (Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r nod hwn, sut byddaf yn adolygu hyn?)
Gwella Rheoli amser	-Sgediwlo argaeledd ar gyfer tasgau Prifysgol fel nad wyf yn teimlo gor 1ewydd1 dros bwysau gwaith. -Penderfynu ar amser rwy'n treulio ar dasgau penodol -Blaenoriaethu tasgau yn ol pwysigrwydd -Torri tasgau i lawr fel bod fy ngwaith ddim yn teimlo fel mynydd ac yn fwy cyflawnadwy i mi. -ymchwilio yn fwy cyn ysgrifennu tasg	-Tiwtor ar gael I wirio fy mod ar drywydd cywir tasgau -Creu amserlen ar bapur a'i ddilyn a cynnwys fy ngweitgareddau hamdden eraill hefyd fel fy mod yn cyflawni'r ddau. -Dilyn amcanion SMART I fod mwy effeithiol.	22/12/2023 (Diwrnod olaf y tymor cyn gwyliau Nadolig)	-Cyflwynio tasgau o safon uchel -Cyflwyno tasgau cyn y dyddiad cau -Dechrau tasg yn gynnar -Llwyddo I weld ffrindiau yn gyson yn ystod y penwythnosau -Llwyddo gwneud 3 sesiwn chwaraeon yr wythnos fel fy mod yn ymlacio hefyd
Gwella ymwybyddiaeth ynglun a disgyblion ALN (Additional learning needs)	-Cyfathrebu'r syniad yma i'r prifathro. -Gofyn i'r 1ewyd amserlenni oleiaf un diwrnod yr wythnos gyda phlentyn/plant ALN. -Gofyn i'r Ysgol am wybodaeth perthnasol mae nhw'n defnyddio/cyfeirio ato.	-Cefnogaeth y prifathro -Cefnogaeth fy athrawes dosbarth -Cefnogaeth tiwtor y brifysgol I adnabod adnoddau addas	22/12/2023 (Diwrnod olaf y tymor cyn gwyliau Nadolig)	-Fy amserlen yn cynnwys oleiaf un dydd yn yr wythnos â phlentyn ALN -Casgliad o adnoddau gallaf gyfeirio atyn nhw
Uwchsgilio er mwyn gwella potensial cael swydd	-Cyfrannu I glwb chwaraeon yn yr Ysgol -bod yn fwy ymwybodol o gywirdeb iaith ym mhopeth fi;n gwneud -mynchu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd mae'r Ysgol yn trefnu -rhwydweithio tu fewn a thu allan I'r ysgol	-cefnogaeth yr Ysgol yn canatiau I mi gynorthwyo/arwain clwb chwaraeon -Adnoddau I ddyfnhau fy nealltwriaeth am addysg blynyddoedd cynnar -Cyngor athrawon neu'r tiwtoriaid ar gyrsiau byddai'n arwain at fy natblygiad	22/12/2023 (Diwrnod olaf y tymor cyn gwyliau Nadolig)	-Ychwanegi rhedeg clwb chwaraeon I fy CV -Cyflawni gwaith heb wallau iaith -Wedi mynychu oleiaf un dydd HMS gyda'r Ysgol -Wedi ymdrechi I siarad â un athro 1ewydd tu fewn a tu allan o'r ysgol

Beth ydw i'n ei wybod eisioes?

Rwyf yn gwybod bod angen i mi fod yn amyneddgar pan yn gweithio â phlant gan fod ystod eang o allu mewn dosbarthiadau. Hefyd mae angen i mi ddangos esiamp! da i'r plant gan fy mod yn cael argraff mawr arnynt bob dydd. Mae hyder yn arf pwysig iawn i mi wrth weithio a phlant ifanc oherwydd mae llawer o sefyllfaoed gwahanol yn codi ac mae'n bwysig gwybod sut i ddelio â nhw.

Beth ydw i wedi dysgu hyd yn hyn?

Fel ymarferydd proffesiynol rwyf wedi dysgu bod pob plentyn ar lefel gwahanol o allu, ac i weithio o amgylch hyn rwyf yn symleiddio esboniad y dasg fel bod y plentyn yn deall yn well. Hefyd rwyf wedi adnabod bod pob plentyn yn deall esboniad y gwaith mewn ffyrdd gwahanol, felly rwyf wedi dysgu i fod yn fwy personol i'r plentyn pan yn helpu â thasg.

Beth ydw i eisiau ei ddatblygu?

Yr amcanion uchod hoffwn ddatblygu yw rheoli amser, gwella fy ymwybyddiaeth ynglun a disgyblion ALN ac uwchsgilio fy hun. Hoffen ddatblygu fy sgiliau rheoli amser fel fy mod yn medru cynnal balans rhwng fy mywyd gwaith a phersonol. Hoffwn wella fy ymybyddiaeth ynglyn a disgyblion ALN oherwydd byddai'n datblygu fy nealtwriaeth o sut i weithio a phlant anghenus a fy ngwneud yn ymarferydd proffesiynol gwell. Hoffen uwchsgilio er mwyn gwella potensial cael swydd yn y dyfodol.

Rhan 2

Papur briffio

<u>Beth yw myfyrio ac ymarfer myfyriol?:</u> Myfyrio yw meddwl yn bwyllog ac yn drylwyr a gwerthuso a chymryd ystyriaeth o'ch ymddygiad, meddyliau, cymhellion a awyddau (Reflection.App, 2023). Mae'n eich galluogi gael persbectif gwahanol ar ddigwyddiadau. Mae'ch meddwl yn gallu gwneud i chi deimlo bod digwyddiad yn waeth na ydyw, felly mae myfyrio yn eich caniatáu i gymryd cam yn ol a phrosesu digwyddiad i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa (Reflection.App, 2023). Drwy adolygu'ch sgiliau gallwch weld oes ffordd mwy effeithlon o'u gwneud yn y dyfodol. Mae angen cwestiynu'r hyn rydych yn ei wneud mewn ffordd gadarnhaol drwy ofyn pam yr ydych wedi gwneud y penderfyniad penodol (The Open University, 2023). Y 3 pheth sydd angen ystyried yw: Gwybodaeth (beth ni'n gwybod neu ddim); Sgiliau (ein gallu i wneud rhywbeth neu ddim); Ymarfer (sut ry' ni yn ymddwyn a pherfformio tasg) (WJEC CBAC LTD, 2019). Y 4 cam i ymarfer myfyriol yw: edrych yn ol ar sefyllfa; ei ddisgrifio'n fanwl i ddeall beth ddigwyddodd; disgrifio beth wnaethoch ddysgu am eich hun o'r profiad; a phenderfynu camau nesaf er mwyngwella'r canlyniad (Case western Reserve University School of Medicine, 2016).	<u>Pam mae ymarfer myfyriol yn bwysig i ymarfer EY?:</u> Mae ymarfer myfyriol yn bwysig i'ch datblygiad ac yn sicrhau eich bod yn datblygu'ch sgiliau'n gyson. Mae'r broses yma'n fuddiol i rieni a gofalmwr gan eu bod yn medru gweld newidiadau yn eich arferion o amgylch plant ifanc ac mae sylwedyddion yn gweld bod y plant yn ddiogel yn eich gofal sy'n gwella'n gyson (PACEY, 2016). Gall helpu ffeindio targedau perthnasol i'r plant ifanc a darganfod eu cryfderau a gwendidau. Bydd hyn yn gwella datblygiad y plant ifanc a rhoi gwell gofal i gefnogi'r plant a'u teuluoedd (PETIT, 2022). Mae'n arf bwysig i annog plant i'w defnyddio yn gynnar. Pan yn cael eu hannog i fyfrio maent yn datblygu sgiliau cwestiynu, cofio archwilio ac esbonio. Mae'n helpu plant ifanc i ddysgu o'u profiadau a datblygu sgiliau rhyng-bersonol (NumberWorks'nWords, n.d.). Mae plant yn dysgu drwy wneud pethau eu hunan a darganfod gwahanol sgiliau drwy chwarae, felly maent yn datblygu sgiliau dros amser. Y mwy o gyfle maent yn cael i ddatblygu sgiliau y mwy naturiol bydd y sgiliau yma'n dod iddynt (Shannon, ARU blogs, 2018).
<u>Casgliad:</u> Rwy' wedi elwa o astudio dau fodel myfyriol sy'n cael eu defnyddio yn benodol ym maes addysg nad oeddwn i wedi clywed amdany'n nhw cyn hyn. Rwy'n ffafrio model Gibbs yn y man cyntaf - mae'n strwythur llai cymhleth oherwydd bod llai o gamau a hwn yn ei wneud yn haws i ddeall wrth ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Mae'r ffaith bod y fframwaith yn tueddu at brofiadau sy'n ailadrodd yn rhywbeth sy'n apelio fi - yddai'n helpu fi i ystyried profiadau, ffocysu ar hunanfyfrio a gwersi i ddysgu. Ond rwy'n deall bod model Kolb yn fodel effeithiol hefyd oherwydd ei fod yn canolbwyntio yn fwy ar ddatblygu meddwl beirniadol, sgiliau datrys problemau a dysgu o gamgymeriadau a llwydiannau. Wrth ymchwilio'r modelau yma rwyf yn deall pwysigrwydd myfyrio ymarferol llawer gwell - mae'n eich galluogi i ddysgu o'ch profiadau, datblygu'r arddull yr ydych yn ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol a bod yn ymwybodol o werth nhw yn y sefyllfaoedd gwahanol hynny.	
<u>Dadansoddiad o fodelau:</u> Mae model Gibbs yn fodel myfyrio enwog sy'n dangos 6 rhan gwahano:l Disgrifio; Teimladau; Gwerthuso; Analeiddio; Casgliad; Cynllun Gweithredu. Mae model Kolb yn 4 rhan: Profiad Diriaethol (<i>concrete</i>); Meddwl Myfyriol; Syniadau Haniaethol; Arbrofi Actif. Y tebygrwydd rhwng y ddau yw: meithrin ddealtwriaeth dyfnach o brofiad; hyrwyddo proses ymarfer myfyriol cylchol; dulliau dysgu dylanwadol; defnydd helaeth ym maes addysg a datblygiad personol. Y gwahaniaethau yw: mae Kolb yn dysgu trwy brofiad a Gibbs yn dysgu trwy ailadrodd; Kolb yn 4 rhan a Gibbs yn 6 rhan; Kolb yn cyflwyno cylchdro myfyriol ar gyfer addysgwyr gwerthuso eu dysgu a datblygiad proffesiynol a Gibbs yn creu cylchdro myfyriol i ddarparu strwythur a dysgu o brofiad (Sethmini, 2021). Manteision Kolb yw: datblygu meddwl beirniadol; sgiliau datrys problemau a dysgu o gamgymeriadau a llwydiannau; meithrin diwylliant dysgu a gwella parhaus a chwilio adborth a chefnogaeth eraill; helpu canfod arddull gorau o ddysgu ac addasu strategaethau (LinkedIn Community, 2023). Anfanteision Kolb yw: angen llawer o egni ac ymroi llawer o amser; angen hunan ddisgyblaeth a chymhelliant; her ffeindio profiadau perthnasol ac ystyrlon a myfyrio ar brofiadau'n wrthrychol (LinkedIn Community, 2023). Manteision Gibbs yw: fframwaith i archwilio profiadau; natur cylchdroadol yn annog profiadau sy'n cael eu hailadrodd; caniatáu dysgu o brofiadau da neu ddrwg (The University of Edinburgh, 2023). Yr anfanteision yw: myfyrio arwynebol a datblygiad proffesiynol gwanach (Forrester, 2020); a Model 6 cham ddim yn gadael lle i amrywio os yn teimlo bod angen (Fallin, 2021)	
<u>Theori ymarfer myfyriol:</u> Mae ymarfer myfyriol yn ddull hynafol o hunan wella. Mae'n derm modern o fewn fframwaith sy'n datblygu yn barhaus. Mae'n ddull o asesu meddyliau a gweithredoedd er mwyn gwella dysgu a datblygiad personol. Mae'n broses mae modd addasu ac yn grwp o syniadau y gellir eu defnyddio ochr yn ochr â syniadau ar gyfer hyfforddi, dysgu, datblygiad personol a gwella personol. Mae'n fethodoleg gwerthfawr ar gyfer dysgu o'r gorffennol er mwyn asesu ble ry' ni nawr a gwella ar hynny i'r dyfodol. I rai mae'n weithred naturiol. Mae'r buddianau yn cynnwys lleihau straen, ymdopi gyda newid a pherthnasoedd yn y gweithle. Mae'n galluogi meddwl mwy clir ac yn lleihau tueddiad emosiynol (BussinessBalls, 2023). Un o'r modelau symlaf sy'n disgrifio ymarfer myfyriol yw model ERA (Jasper, 2013). Mae'r 3 cam yn cynnwys Profiad, Myfyrio a Gweithredu - gallwch ddechrau myfyrio ar brofiad penodol, sef y penderfyniad a wnaethoch chi a fel hyn gallwch addasu'ch ymddygiad mewn sefyllfa tebyg (University of Cambridge, 2023).	

Rhan 3

Mae ymarfer proffesiynol yn arddangos eich gwybodaeth proffesiynol, arbenigedd, sgiliau addas, cymhwyseddau, gwerthoedd a chredoau o fewn y fframwaith a'r safon sy'n cael ei ddisgwyl (SQA, 2009). I fod yn weithiwr proffesiynol mae angen i chi feistrol'r sgiliau angenrheidiol o fewn eich maes gwaith ac i fod yn berson parchus sydd â sgiliau rhyngbersonol da (APM, 2022).

Mae gwerthoedd yn bwysig i ymarferydd proffesiynol oherwydd ei fod yn dyfnhau eich proffesiynoldeb drwy gydol eich gyrfa. Mae gwerthoedd yn annog ac yn cefnogi ymarferydd proffesiynol i ofyn cwestiynau beirniadol ac i herio credoau ei hun ac eraill. Mae gonestrwydd ac integriti yn bwysig iawn i ymarferydd proffesiynol, mae'n bwysig i chi gael egwyddorion cryf a moesol (The General Teaching Council for Scotland, 2023). Fel ymarferydd proffesiynol mae'n bwysig i chi fod yn fodel rol positif i'ch disgyblion, maent yn debygol i ddilyn eich tueddiadau wrth weld eich ymddygiad. Mae hyn yn hanfodol i'ch datblygiad gan fod plant â modeli rol positif yn defnyddio'r hyn maent yn gweld a dysgu wrthoch am weddill eu bywydau (Austin, 2022). Mae dangos empathi hefyd yn hynod bwysig o amgylch y plant ifanc oherwydd, mae'n bwysig i adnabod eu gwir deimladau ac eu helpu gyfarwyddo â emosiynau gwahanol. Wrth ddangos empathi gall hyn fod yn beth positif i'r plant ddysgu, gan ei fod yn bwysig iddynt ddeall sut mae eu gweithredau nhw yn gallu effeithio teimladau eraill (Goodstart early learning, 2018). Mae dangos amynedd yn hanfodol i ymarferydd proffesiynol gan ei fod yn ffordd arbennig o ddatblygu hyder a ffydd y plentyn ynddoch. Mae amynedd yn holl bwysig i ddeall eich disgyblion yn well ac i ddysgu a'i helpu i gyflawni eu taith addysgiadol yn llwyddianus (Iverson, 2020). Mae yna llawer o werthoedd pwysig eraill megis dangos parch ac i fod yn ddemocratig yn eich ffordd, mae gwrandao ar y plant ifanc yn hynod bwysig fel eu bod yn teimlo bod eu meddyliau'n cael eu clywed ac hefyd mae'n bwysig dangos gofal a charedigrwydd atynt.

Mae cyfathrebu'n effeithiol yn help mawr i deuluoedd a gofalwyr i rannu gwybodaeth pwysig am y plant. Pan mae'r ymarferydd proffesiynol yn cyfathrebu'n effeithiol i rieni/gofalwyr, gall wneud iddynt deimlo fel eu bod yn rhan o ddatblygiad a profiadau eu plant. Gall hyn fod yn hwb i adeiladu a i ddatbygu perthnasoedd. Mae angen dangos iaith corff positif i'r plant ifanc fel eu bod yn teimlo mor gyfforddus a chartrefol phosib, mae'n bwysig bod y plant yn eich gweld fel person agored a dibynadwy (WJEC, 2019). Mae datblygu perthnasoedd â phlant yn hynod bwysig i ymarferydd proffesiynol oherwydd ei fod yn holl bwysig i ddatblygiad plentyn ac yn eu galluogi i fynegi ei hun. Gall y plentyn ddysgu sut i feddwl, deall, cyfathrebu, ymddwyn a datblygu sgiliau cymdeithasu. Mae hefyd yn helpu'r plentyn i ddysgu mwy am ei hun ac am y byd o'i hamgylch. Mae'n bwysig iawn bod yr ymarferydd proffesiynol yn cyfathrebu a datblygu pherthnasoedd yn gywir, oherwydd mae'r plant ifanc

yn gweld eich ymddygiad a sut ydych yn cyfathrebu a rhieni, athrawon eraill neu phlant eraill ac yn copïo'ch tueddiadau. (The Australian Parenting Website, 2023).

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth manwl yn bwysig i'r ymarferydd proffesiynol ym maes addysg am sawl reswm. Er mwyn dysgu i safonau cyfredol mae athrawon angen deall y pwnc o addysgu yn drylwyr er mwyn helpu'r plentyn ifanc. Mae ymarferydd proffesiynol angen gweld sut mae syniadau yn cysylltu dros bynciau a bywyd bob dydd. Mae nhw wedyn yn gallu helpu myfyrwyr i uniaethu gyda syniadau ac herio camddealldwriaethau. Roedd Schulman (1986) wedi creu model oedd yn cynnwys cylchdro o sawl weithgaredd roedd angen i ymarferydd proffesiynol gyflawni er mwyn addysgu'n dda sef, amgyffred, trawsnewid, rhoi cyfarwyddyd, gwerthuso, myfyrio a dealltwriaeth newydd. Er enghraifft mae cyfarwyddiadau effeithiol o'r testun a thechnegau yn hanfodol i gyfleu gwybodaeth yn effeithiol i ddysgwyr ifanc (University of Northern Iowa, 2023). O ran agweddau ar ddiogelu dylai hwn fod yn flaenoriaeth i ymarferydd proffesiynol sef sicrhau bod y rheini yn eich gofal yn cael eu hamddiffyn rhag niwed o fewn a thu allan amgylchedd addysgiadol. Mae diogelu plant yn enwedig o bwysig i ymarferydd proffesiynol oherwydd bod ymarferwyr proffesiynol yn cael mewnwelediad unigryw i ddatblygiad, ymddygiad a rhyngweithio plant gydag eraill. Er mwyn sicrhau amddiffyn dysgwyr mewn risg mae'n hanfodol bod polisiau diogelu yn cael ei sefydlu a'i gweithredu gan ymarferwyr proffesiynol (Tim, 2021)

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i ymarferydd proffesiynol oherwydd mae'n bwysig gweithredu mewn ffordd sydd yn cynnwys rhannu gwybodaeth am anghenion plant a'u teuluoedd/gofalwyr. Egwyddorion sydd angen eu dilyn yw gweithio fel tîm, cyfathrebu effeithiol, gweithio tuag at yr un nôd. Mae'n caniatáu i ymarferwyr proffesiynol ffocysio ar ei brif rol, sef dysgu ac addysgu. Mae'r term aml asiantaeth yn disgrifio sut mae mae lleoliadau gofal plant yn cydweithio er mwyn ateb anghenion plant a'i teuluoedd/gofalwyr (WJEC, 2019). Mae cydweithio mewn partneriaeth aml asiantaeth yn helpu i hyrwyddo, rhannu sgiliau, gwybodaeth, syniadau ac arbenigeddau rhwng ymarferwyr proffesiynol. Mae gweithio aml asiantaethiau yn cyfrannu at ataliadau a ffordd o ymyraeth cynnar. Gall hybu ymarferydd proffesiynol drwy ymuno â phroffesiynwyr eraill i atal problemau rhag ddigwydd yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn weithred effeithiol i gefnogi plant ifanc a theuluoedd â anghenion ychwanegol, mae'n sicrhau canlyniad gwell iddynt. Mae gweithio aml asiantaethiau yn bwysig oherwydd mae'n sicrhau datrysiad problemau, gwella'ch gallu i feddwl mwy holistig, gwella dealltwriaeth a ymddiried rhwng asiantaethau (South Tees Safeguarding Children Partnership, 2023).

Y cylch arsylwi a chynllunio yw i arsylwi, asesu a chynllunio. Arsylwi yw'r broses o wyllo'r plant yn eich gofal, gwrando ar beth maent yn gweud a chymryd nodiadau o bethau chi'n gweld a chlywed. Dylai ymarferydd proffesiynol analeiddio cynnydd y plant - mae'n bwysig i wybod os oes anghenion ychwanegol â'r plentyn. Bydd angen cynllunio'r camau i ddatblygiad a dysgu y plentyn. Mae'r cylch arsylwi a chynllunio yn llywio ymarfer proffesiynol drwy rhoi strwythur i ymarferydd proffesiynol i arsylwi a asesu plant ifanc. Drwy arsylwi plant maent yn gallu gweld anghenion y plant drwy wrando a gwylio, mae'n bwysig i arsylwi pob un plentyn yn unigol i ganolbwyntio ar eu agweddau. Asesu yw'r

broses o adolygu'r hyn yr ydych wedi dysgu o'ch arsylwad ar y plentyn, dros amser rydych yn adeiladu tystiolaeth ac yn dod i ddeall unigolyn yn well. Ar ôl hyn byddwch yn gallu gwneud cynllun sydd wedi selio ar y data rydych wedi casglu o'ch arsylwad a asesiad (West Sussex County Council, 2021). Mae'r cylch arsylwi a chynllunio yn sicrhau bod ymarferwyr yn diwallu anghenion plant drwy sicrhau bod gan bob plentyn cynllun unigol sydd yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn gael cynllun a datblygiad yn eu addysg.

Mae'r UNCRC yn dweud bod gan pob plentyn neu phobl ifanc yr hawl i addysg pe bai ei fod yn hil/rhyw gwahanol neu bod anabledd ganddynt (Children and Young peoples commissioner Scotland, 2023). Mae'r saith egwyddor yn cynnwys urddas, dibynadwyedd ac i beidio cael ei wahanu, y lles gorau, cyfranogiad, dim disgrimineiddio, tryloywder ac atebgolrwydd a bywyd, goroesiad a datblygiad. Mae'r egwyddorion yma yn sicrhau bod ymarferydd proffesiynol yn addysgu mewn ffordd sy'n deg i bob plentyn (UNICEF, 2023). Trwy ddefnyddio egwyddorion UNCRC yn y cwricwlwm mae plant, athrawon a'r gymuned o amgylch yr ysgol gyda dealltwriaeth gwell o hawliau'r plant a sut maent yn berthnasol i eu bywydau. Mae'r wybodaeth yma yn galluogi plant i ddeall ac i gael parch tuag at eu hawliau (UNICEF, 2017). Mae'n llywio ymarfer proffesiynol drwy helpu'r plant ifanc i ddeall yr hawliau sydd ganddynt ac i gyfleu'r neges bod gan bob plentyn hawliau pwy bynnag a ble bynnag yr ydynt. Mae'r egwyddorion yn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin yn deg ac mae hyn yn neges bwysig i bob plentyn ifanc i ddysgu.

Wrth ddod i gasgliad mae'n amlwg bod llawer o agweddau ymarfer proffesiynol gwahanol ond mae'n bwysig i gadw'r agweddau yma'n bositif. Mae angen i ymarferydd proffesiynol gael y gwerthoedd cywir ac i drin pob un plentyn yn deg ac i ddangos caredigrwydd trwy fod yn ofalgar. Mae gan pob plentyn anghenion gwahanol felly mae'n bwysig i arsylwi ac i wrando ac edrych yn ofalus ar bob disgybl fel rydych yn ei ddeall yn well ac yn gallu eu cefnogi i'r safon gorau posib. Hefyd mae'n amlwg bod angen dealltwriaeth dwfn ar ymarferydd proffesiynol fel ei bod yn medru addasu i wahanol sefyllfaoedd ac i fod yn agored i wella. Mae'n hanfodol i amddiffyn pob plentyn ac i ofalu amdanynt i'r safon gorau phosibl.

Rhestr Cyfeirnod

Apm.org.uk(2022) *What is working professionally*. Ar gael: <https://www.apm.org.uk/resources/what-is-project-management/what-is-working-professionally/#:~:text=Professionalism%20is%20a%20demonstrable%20awareness,including%20knowledge%2C%20and%20appropriate%20skills>. (Defnyddio Hydref 19 2023)

ARU Blogs (2018) *Children learn through experience*. Ar gael: <https://www.aru.ac.uk/blogs/learning-through-experience/#:~:text=Children%20will%20learn%20most%20through,are%20able%20to%20develop%20holistically>. (Defnyddio Hydref 14 2023)

BussinessBalls (2023) *Reflective Practice*. Ar gael: <https://www.businessballs.com/self-awareness/reflective-practice/> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Case western Reserve University School of Medicine (2016) *Four steps for reflection*. Ar gael: <https://case.edu/medicine/curriculum/sites/case.edu.curriculum/files/2022-02/4%20Step%20Reflection%20Template.pdf> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Clinicaleducator.org (2020) *Reflection and Reflective Writing*. Ar gael: <https://www.clinicaleducator.org/en-gb/resource/735#:~:text=Possible%20disadvantages%20of%20Gibbs%27%20model,for%20personal%20or%20professional%20development>. (Defnyddio Hydref 15 2023)

Connectionsacademy.com (2022) *How to be a good role model fo students*. Ar gael: <https://www.connectionsacademy.com/support/resources/article/importance-of-positive-adult-role-models/#:~:text=The%20importance%20of%20good%20role,that%20could%20last%20a%20lifetime>. (Defnyddio 19 hydref 2023)

Cypcs.org.uk. (2023). *I have the right to an education*. Ar gael: <https://www.cypcs.org.uk/rights/uncrc/articles/article-28/#:~:text=Article%2028%20of%20the%20UNCRC,if%20they%27re%20a%20refugee>. (defnyddio Hydref 22 2023)

DifferenceBetween.com (2021) *What is the difference between Kolb and Gibb's reflective cycle.* Ar gael: <https://www.differencebetween.com/what-is-the-difference-between-kolb-and-gibbs-reflective-cycle/> (Defnyddio Hydref 14 2023)

Essentialskills.co.uk (2021) *The importance of safeguarding in education.* Ar gael: <https://essentialskills.co.uk/blog/post/importance-safeguarding-education> (Defnyddio Hydref 20 2023)

Goodstart.org.au (2018) *Why teaching children empathy is more important than ever.* Ar gael: <https://www.goodstart.org.au/parenting/why-teaching-children-empathy-is-more-important-than-ever#:~:text=Why%20is%20developing%20empathy%20important,skill%20for%20children%20to%20possess.> (Defnyddio Hydref 19 2023)

Gtcs.org.uk (2023) *Professional values.* Ar gael <https://www.gtcs.org.uk/professional-standards/key-cross-cutting-themes/professional-values/#:~:text=Importantly%2C%20it%20is%20these%20values,beliefs%20and%20those%20of%20others.> (Defnyddio 19 Hydref 2023)

Intime.uni.edu (2023) *Teachers in-depth content knowledge.* Ar gael: <https://intime.uni.edu/teachers-depth-content-knowledge#:~:text=To%20teach%20all%20students%20according,fields%20and%20to%20everyday%20life> (Defnyddio Hydref 20 2023)

Leefallin.co.uk (2021) *Why I don't like Gibbs' reflective cycle in reflective practice.* Ar gael: <https://leefallin.co.uk/2021/10/why-i-dont-like-gibbs-reflective-cycle-in-reflective-practice/> (Defnyddio 15 Hydref 2023)

LinkedIn (2023) *What are the benefits and challenges of using the Kolb learning cycle in your professional development?* Ar gael: <https://www.linkedin.com/advice/3/what-benefits-challenges-using-kolb-learning-cycle#:~:text=Benefits%20of%20the%20Kolb%20learning%20cycle&text=Third%2C%20it%20can%20help%20you,feedback%20and%20support%20from%20others.> (Defnyddio Hydref 15 2023)

LinkedIn (2023) *What are the benefits and challenges of using the Kolb learning cycle in your professional development?* Ar gael: <https://www.linkedin.com/advice/3/what-benefits-challenges-using-kolb-learning-cycle#:~:text=Benefits%20of%20the%20Kolb%20learning%20cycle&text=Third%2C%20it%20can%20help%20you,feedback%20and%20support%20from%20others.> (Defnyddio Hydref 15 2023)

Nicole Brown (n.d) *Social research & Practice and Education*. Ar gael: <https://www.nicole-brown.co.uk/reflective-model-according-to-kolb/> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

NumberWords'nWords (n.d) *4 benefits of reflection for children*. Ar gael: <https://numberworksnumberwords.com/global/blog/4-benefits-of-reflection-for-children/#:~:text=Reflection%20is%20an%20important%20tool,and%20develop%20their%20interpersonal%20skills.> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

NursingAnswers.net (2023) *Gibbs' reflective cycle*. Ar gael: <https://nursinganswers.net/reflective-guides/gibbs-reflective-cycle.php> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

PETIT early learning journey (2022) *Reflective Practice- The key to providing better educational experiences*. Ar gael: <https://www.petitjourney.com.au/reflective-practice/#:~:text=A%20reflective%20practitioner%20in%20child,to%20support%20children%20and%20families.> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Professional association for childcare and early years (2016) *Developing Self Reflective Practice*. Ar gael: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Raisingchildren.net.au. (2023) *Relationships and child development*. Ar gael: <https://raisingchildren.net.au/newborns/development/understanding-development/relationships-development#:~:text=Loving%2C%20reliable%20and%20responsive%20relationships,emotions%20and%20develop%20social%20skills.> (Defnyddio 20 Hydref 2023)

Reflection.App (2023) *Journaling Tips & Resources*. Ar gael: <https://www.reflection.app/blog/self-reflection-101-what-is-self-reflection-why-is-reflection-important#:~:text=Is%20Self%2DReflection%3F-.A%20Self%2DReflection%20Definition,attitudes%2C%20motivations%2C%20and%20desires.> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Reflection.App (2023) *Journaling Tips & Resources*. Ar gael: <https://www.reflection.app/blog/self-reflection-101-what-is-self-reflection-why-is-reflection-important#:~:text=Is%20Self%2DReflection%3F-.A%20Self%2DReflection%20Definition,attitudes%2C%20motivations%2C%20and%20desires.> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Sqa.org.uk (2009) *National unit specification: general information*. Ar gael: <https://www.sqa.org.uk/files/nu/F7HV12.pdf> (Defnyddio Hydref 19 2023)

Stscp.co.uk. (2023) *Working Together*. Ar gael: <https://stscp.co.uk/stscp-priorities/working-together/#:~:text=Effective%20multi%2Dagency%20working%20means,need%2C%20in%20a%20timely%20manner>. (defnyddio Hydref 22 2023)

The open University (2023) *Self reflection*. Ar gael: <https://www5.open.ac.uk/choose/unison/develop/my-skills/self-reflection/#:~:text=Reflecting%20helps%20you%20to%20develop,doing%20it%20in%20the%20future>. (Defnyddio Hydref 14 2023)

The University of Edinburgh (2023) *Reflection Toolkit*. Ar gael: <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle/#:~:text=It%20offers%20a%20framework%20for,or%20didn%27t%20go%20well>. (Defnyddio 15 Hydref 2023)

Unicef.org.uk. (2017). *Rights respecting schools award*. Ar gael: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2017/01/Change-for-Children-through-RRSA.pdf> (defnyddio Hydref 22 2023)

Unicef.org.uk. (2023). *A child's-rights based approach*. Ar gael: <https://www.unicef.org.uk/child-friendly-cities/crba/#:~:text=This%20practical%20tool%20is%20made,interdependence%20and%20indivisibility%3B%20and%20transparency> (defnyddio 22 Hydref 2023)

University of Cambridge (2023) *Study skills*. Ar gael: <https://libguides.cam.ac.uk/reflectivepracticetoolkit/models> (Defnyddio 14 Hydref 2023)

Utapressbooks.pub (2020) *PATIENCE IS THE MOST IMPORTANT ELEMENT OF GOOD TEACHING*. Ar gael: <https://uta.pressbooks.pub/littleorangebook/chapter/patience-is-the-most-important-element-of-good-teaching/#:~:text=As%20Brent%20suggested%2C%20the%20demeanor,them%20complete%20that%20journey%20successfully>. (Defnyddio Hydref 19 2023)

Westsussex.gov.uk. *effective Practice: Observation, Assessment and Planning*. Ar gael: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (defnyddio Hydref 22 2023)

WJEC CBAC LTD (2019) *Reflective practice*. Ar gael: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-5/ multi-lang/unit06/9-reflective-practice.html (Defnyddio 14 Hydref 2023)

WJEC.co.uk. (2019) *Cyfathrebu effeithiol*. Ar gael:

http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_3-1/_multi-lang/unit08/01-effective-communication.html#:~:text=Effective%20communication%20helps%20families%2Fcarers,build%20and%20develop%20positive%20relationships. (Defnyddio Hydref 20 2023)

Wjec.co.uk. (2019) *Professional practice as a childcare worker*. Ar gael:

http://resource.download.wjec.co.uk.s3-eu-west-1.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-3/_multi-lang/unit02/01-principles-of-partnership-importance-of-multi-agency-working.html#:~:text=The%20term (Defnyddio Hydref 20 2023)